Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glan Ceubal

**Colwill Rd**
**Gabalfa**
**CF14 2QQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Glan Ceubal

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Glan Ceubal |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 199 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 132 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 48 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 15.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 5.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 16.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/12/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/06/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Glan Ceubal yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol er mwyn adnabod anghenion pob unigolyn. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo bod ganddynt berthnasoedd cadarn i drafod unrhyw bryderon mewn amgylchedd diogel.

Mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda pharch a chwrteisi sy'n cefnogi'r rhan fwyaf i ymddwyn yn dda. Mae ganddynt agweddau positif at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhai sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn gwneud cynnydd cadarn gyda'r iaith, gan fagu hyder a mwynhad tuag at yr iaith yn dilyn cyfnod yn yr uned drochi.

Rhoddir llais cryf i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith yr ysgol, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau'n hyderus mewn cyd-destunau gwahanol. Mae llawer yn adeiladu'n gynyddol ar eu medrau ysgrifennu ac yn cyflawni safonau da. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn dda erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r diwylliant darllen yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i fwynhau testunau Cymraeg.

Mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion trwy holi treiddgar ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt drafod eu gwaith. Mae'r staff yn adnabod anghenion pob disgybl yn dda, gan deilwra'r gefnogaeth ddysgu yn sensitif pan fydd yn berthnasol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn annibynnol i adborth athrawon er mwyn gwella ansawdd eu gwaith, dewis sut i gyflwyno eu dysgu, a chymryd y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r pennaeth newydd wedi ymgartrefu'n dda ac mae ganddi ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r materion sydd angen eu gwella. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn awyddus i fireinio'r addysgu ar draws yr ysgol er mwyn diwallu anghenion bob disgybl. Mae aelodau'r corff llywodraethol wedi dangos cefnogaeth gadarn i'r pennaeth newydd ers ei phenodiad. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddigon o ddealltwriaeth a dyfnder ynglŷn â gofynion eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

## Argymhellion

A1 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn annibynnol i adborth athrawon er mwyn gwella ansawdd eu gwaith, dewis sut i gyflwyno eu dysgu, a chymryd y cam nesaf yn eu dysgu

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau i gefnogi cynnydd gwybodaeth a mwynhad disgyblion wrth ddarllen llyfrau a thestunau Cymraeg

A3 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr er mwyn iddynt weithredu'n fwy strategol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w cyfnod a'u mannau cychwyn. Ar draws yr ysgol, yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r disgyblion yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn hyderus ac yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn dyfalbarhau'n llwyddiannus, yn datblygu hyder cynyddol ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn gwrando'n astud. Maent yn rhyngweithio'n effeithiol gydag oedolion gan ddatblygu medrau llefaredd, iaith a chyfathrebu cadarn. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eraill ac yn ymateb gan ddefnyddio iaith a thôn llais addas. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth, gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er enghraifft, llwydda disgyblion i gynnal trafodaeth o blaid ac yn erbyn caniatáu i artistiaid ganu caneuon Saesneg yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar straeon a'u hailddarllen i'w ffrindiau ac oedolion. Maent yn dechrau dod yn gyfarwydd â chynnwys llyfrau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i drefnu digwyddiadau yn stori'r Tri Mochyn Bach. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda rhuglder a dealltwriaeth gadarn o dechnegau darllen. Maent yn datblygu eu medrau'n effeithiol i gywain gwybodaeth syml, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am edrychiad yr arth frown.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn darllen ystod o destunau priodol ac yn cymhwyso'u medrau darllen, gan gynnwys testunau digidol, yn effeithiol i gefnogi eu dysgu. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Er hyn, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu eu gwybodaeth a'u mwynhad o ddarllen testunau Cymraeg gan awduron o Gymru.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gyson yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau er mwyn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml. Yn y dosbarth derbyn, maent yn sillafu geiriau syml yn weddol gywir wrth ysgrifennu barddoniaeth am y môr. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu darnau disgrifiadol a diddorol yn gynyddol

gywir, er enghraifft am eu hoff anifail. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn datblygu eu medrau'n addas gan ddechrau amrywio geirfa a phatrymau brawddeg wrth ysgrifennu. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu i safon dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, maent yn creu darnau estynedig ffeithiol a dychmygus o safbwynt enwogion hanesyddol Cymru, gan ddefnyddio iaith araith bwerus am fywyd yn y pyllau glo ers talwm. Ar y cyfan, maent yn sillafu ac atalnodi gyda chywirdeb da.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn â'u medrau mathemateg a rhifedd. Yn y blynyddoedd cynnar, mae'r disgyblion yn mwynhau gwneud amlinelliad o'u cyrff a defnyddio geirfa fathemategol wrth gymharu eu taldra. Erbyn Blwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg gan adnabod rhifau a defnyddio'r wybodaeth yn dda i adio a thynnu, er enghraifft wrth chwarae gemau syml. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn parhau i wneud cynnydd cryf. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn datblygu eu medrau mesur wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau rheolaidd ac yn cymhwyso eu medrau'n effeithiol mewn cyd-destunau go iawn. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhif ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn bwrpasol mewn ystod dda o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn casglu a dadansoddi data i gyfrifo cyfaint yr aer yn yr ysgyfaint. Trwy amrywiaeth o brofiadau, mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus i gymhwyso eu medrau rhif, wrth ddatrys problemau go iawn fel rhan o weithgareddau'r 'Diwrnod Datrys'.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus wrth bwyso a mesur yr hyn sydd ei angen i gadw'n iach. Maent yn datblygu medrau corfforol yn dda ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi sy'n hybu eu hiechyd a'u lles, fel chwarae gemau tîm a chymryd rhan mewn sesiynau dyddiol ffitrwydd.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn cymhwyso amrywiol fedrau digidol yn hyderus. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o apiau i gyflwyno a gwerthuso eu gwaith. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio apiau a rhaglenni yn annibynnol. Maent yn defnyddio technoleg animeiddio i greu cyflwyniadau. Un enghraifft nodedig yw gwaith Blwyddyn 5 a 6 yn creu fideo amgen yn dilyn gwerthusiad o gân band yr wythnos. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a digidol mewn cyd-destun diddorol a symbylus.

Mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol drwy'r ysgol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn effeithiol i gynhyrchu gwaith celf deniadol. Mae disgyblion hŷn yn datblygu medrau chwarae offerynnau cerdd amrywiol yn llwyddiannus.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau cadarnhaol y disgyblion at ddysgu yn gryfder. Mae bron pob un disgybl yn teimlo bod oedolion yn eu parchu a'u trin yn deg ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr ethos cyfeillgar sy'n rhan mor gadarnhaol o fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos yr un parch at eu cyfoedion ac at oedolion yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Yn ystod gwersi ac amser egwyl, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn dangos parodrwydd i ymgymryd â'r gweithgareddau dysgu a gynigir iddynt ac yn mynd ati â brwdfrydedd i gyflawni eu tasgau. Mae hyder a gwydnwch yn y ffordd y maent yn ymgymryd â'u tasgau yn y dosbarth ac yn yr awyr agored ac maent yn canolbwyntio'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau wrth ddatrys problemau. Maent yn dod o hyd i atebion gan drafod â'i chyfoedion yn aml cyn gofyn am help gan yr athrawon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy'n effeithio ar eu lles emosiynol. Mae bron bob disgybl yn gwerthfawrogi cyfraniad y swyddog lles sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel o fewn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Maent yn teimlo'n ddiogel rhag cam-drin corfforol a geiriol ac yn teimlo'n hyderus bod yr ysgol yn ymdrin yn gyflym ac effeithiol ag unrhyw achosion o fwlian.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth da o'r angen i gadw'n heini a bwyta'n iach ac maent yn defnyddio'r wybodaeth i wneud dewisiadau doeth yn eu bywyd yn yr ysgol a thu hwnt. Maent yn esbonio pam mae'n fuddiol bwyta byrbrydau iach yn ystod amseroedd chwarae a pham y dylid osgoi bwydydd gyda gormod o siwgr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cadw'n iach ac yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff a chlybiau chwaraeon allgyrsiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu gwaith yn y gymuned leol. Er enghraifft, mae côr yr ysgol wedi ymweld â chartref preswyl lleol ac mae disgyblion hŷn yn ymweld yn wythnosol â'r hwb cymunedol i ehangu eu medrau dinasyddiaeth. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn esbonio gweithredoedd o anghyfiawnder fel rhan o'u gwaith ar hawliau. Er enghraifft, yn ystod sesiynau "Tafod Trafod", mae disgyblion Blwyddyn 4 yn trafod brwydr Rosa Parks dros gydraddoldeb hiliol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi tuag at eraill ac maent yn awyddus i roi cymorth i'r rhai sydd mewn angen, er enghraifft drwy godi arian ar gyfer apêl ambiwlans awyr Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn dda, gyda disgyblion yn aelodau brwd o amrywiaeth eang o bwyllgorau a chynghorau plant. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau arwain yn hyderus ac yn cynnig rhesymau deallus am wneud penderfyniadau. Maent yn adrodd yn ôl i weddill yr ysgol am eu gwaith ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod arweinwyr yn gwrando ar eu barn. Mae llais y disgybl fel canlyniad i waith y gwahanol bwyllgorau yn amlwg ym mywyd bob dydd yr ysgol; er enghraifft, wrth greu fideo gyrru a pharcio, mae hyn wedi dylanwadu ar, a phwysleisio, diogelwch i'r gymuned ehangach. Drwy waith y dewiniaid digidol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn llwyddiannus i ddilyn arweiniad athrawon a chynorthwywyr i gwblhau tasgau. Er hynny, nid yw disgyblion bob tro'n dewis sut i gyflwyno eu dysgu a chymryd y cam nesaf yn eu dysgu.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan y staff berthynas waith barchus a chlòs â'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn cydweithio fel aelodau

effeithiol o dîm ac yn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau allweddol a'u medrau cymdeithasol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio eu medrau llythrennedd a'u medrau digidol yn effeithiol i wneud troslais sylwebu ar weithgareddau athletau.

Ar draws yr dosbarthiadau, mae profiadau dysgu yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn fuddiol. Maent yn cyflwyno themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol ac ymarferol sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae hyn yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gymhelliant, ymrwymiad a chyflawniad llawer o ddisgyblion. Mae egwyddorion ehangach y cwricwlwm yn datblygu'n briodol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a mentrus.

Mae egwyddorion dysgu sylfaen wedi gwreiddio'n llwyddiannus. Llwydda'r athrawon i wneud eu dosbarthiadau a'r ardaloedd allanol yn lleoedd ysgogol a difyr sy'n cefnogi'r dysgu. Mae pwyslais clir ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn frwdfrydig wrth ymgymryd â'u gweithgareddau gan gydweithio a chyd-chwarae'n hapus â'i gilydd. Ar y cyfan, mae athrawon ar draws yr ysgol yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n effeithiol wrth adalw'r dysgu blaenorol ac yn llywio cyfeiriad y dysgu yn bwrpasol. Maent yn rhannu nod y gwersi yn bwrpasol, ac yn cynnwys y disgyblion yn y broses o drafod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo yn eu tasgau.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod cydbwysedd da rhwng gwersi sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, mae tueddiad ar adegau i athrawon arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ei hunain.

Ar draws yr ysgol, mae trefniadau addas i fodloni egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar y pedwar diben. Mae'r staff yn gwrando ar syniadau'r disgyblion gan gydweithio i'w hymgorffori yn eu gwaith. Mae'r ysgol yn manteisio ar awgrymiadau disgyblion i gynllunio cyfleoedd buddiol i gyfoethogi'r cwricwlwm trwy brofiadau pwrpasol. Er enghraifft, mae pob plentyn o Flwyddyn 3 i 6 yn cael cyfle i ddringo mynydd lleol ac mae hyn yn gwneud iddynt werthfawrogi tirluniau a threftadaeth leol ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr gwydn wrth ddyfalbarhau i gyrraedd y copa. Maent hefyd yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol ac yn cael mewnbwn gan rieni. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau eraill; er enghraifft, wrth iddynt leoli adeiladau crefyddol ar fap Caerdydd, maent yn nodi cyfesurynnau ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd.

Yn gyffredinol, mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn cynnig adborth i'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith. Mae cysondeb erbyn hyn yn y strategaethau hyn o ddefnyddio canmoliaeth ac adborth er mwyn dathlu llwyddiannau. Er hyn, nid yw'r adborth yn ddigon amserol na phenodol i'r disgyblion wneud penderfyniadau ar sut i wella ansawdd eu gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn dda iawn. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodedig. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad parchus a chwrtais y disgyblion ac agweddau positif y rhan fwyaf tuag at eu dysgu. Mae athrawon a staff cynorthwyol yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion addysgol neu emosiynol yn cael cefnogaeth dda. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth pwrpasol ac effeithiol iddynt. O dan arweiniad pwrpasol y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, mae'r staff cynorthwyol yn cefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau ymyrraeth priodol yn effeithiol i wella lles a datblygu medrau cymdeithasol disgyblion. Defnyddir ystod o raglenni pwrpasol a pherthnasol sy'n datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn briodol. Mae'r system gyfeirio er mwyn cael mewnbwn gan swyddog lles yr ysgol yn effeithiol. Mae disgyblion yn cael amser i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn gofod diogel a chefnogol. Mae'r ysgol yn datblygu berthynas waith gynhyrchiol â rhieni disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol. Maent yn cynnwys y rhieni yn y broses i adolygu cynnydd eu plant yn ystod cyfarfodydd athrawon er mwyn adnabod a gosod targedau cyrhaeddiad pellach ar eu cyfer.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach. Mae hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol a sensitif. Mae'r staff yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â gwerthoedd, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fwriadus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ymchwilio a chreu ffeil ffeithiau digidol am bobl LHDTC+ i ddefnyddio gyda phlant eraill. Mae agweddau moesol a chydraddoldeb yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol, ac mae'n atgyfnerthu'r diwylliant cynhwysol o fewn ei chymuned. Trwy ystod o gyfleoedd amrywiol, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. O fewn gwasanaethau ysgol gyfan, mae'r staff yn trafod hawliau plant a sut i fod yn ddinasyddion da o fewn y gymdeithas. Maent yn cyfeirio at erthyglau hawliau plant y Genhedloedd Unedig a'r angen i drin pawb â pharch. Mae'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd Er enghraifft, maent yn trefnu cystadleuaeth dylunio logo ar gyfer ymgyrch ailgylchu'r pwyllgor eco ac yn rhannu gwybodaeth gyda chyfoedion mewn cyflwyniadau cyhoeddus.

Trwy themâu diddorol ac ymweliadau addysgol, mae'r staff yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn dda. Er enghraifft, maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld â lleoliadau hanesyddol, gan gynnwys Castell Coch a chanolfan breswyl Maes y Fron.

Mae pwyllgorau’r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau pwysig, gan gynnwys bod yn rhan allweddol o gyfweliadau swyddi yn yr ysgol, sefydlu clwb digidol a hyfforddi disgyblion eraill i fod yn arweinwyr gemau buarth. Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu dealltwriaeth o fenter busnes. Er enghraifft, mae Blwyddyn 6 yn datblygu syniadau ar ffurf ‘Den y Dreigiau’ er mwyn gwerthu yn y ffair haf.

Mae gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer monitro absenoldeb disgyblion yn gadarn. Mae’r arweinwyr yn cysylltu â’r rheini yn brydlon i drafod unrhyw bryder ac yn defnyddio asiantaethau allanol priodol yn effeithiol, pan fydd angen. Yn ogystal, mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae strategaethau arweinyddiaeth y pennaeth yn gadarn ac yn effeithiol ers ei phenodiad ar ddechrau’r flwyddyn. Mae’r pennaeth yn cydweithio’n agos â’r dirprwy a’r cydlynydd addysg anghenion ychwanegol, er mwyn adnabod cryfderau’r ysgol, ynghyd â materion pwysig sydd angen eu gwella ar lefel strategol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn nifer o feysydd pwysig. Ar y cyd, maent yn sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer gwella safonau ar draws yr ysgol yn cael eu gweithredu’n effeithiol a bod pob aelod o staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau a’u cyfrifoldebau yn llawn.

Yn ystod y flwyddyn, mae’r uwch dîm rheoli wedi gwireddu gweledigaeth gadarn ar gyfer yr ysgol. Mae hon wedi’o seilio ar gydweithio er mwyn rhoi’r cyfleoedd gorau posibl i’r disgyblion sy’n eu paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae arwyddair yr ysgol, sef ‘Tyfu, Dysgu, Llwyddo’, yn adlewyrchu hyn yn llwyddiannus.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun,  staff a disgyblion. Mae’n modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol uchel sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at wella’r ysgol ac yn annog cydweithio effeithiol ymhlith y staff. Mae wedi cryfhau’r elfen o waith tîm yn briodol, ac mae hyrwyddo lles staff a disgyblion yn flaenoriaeth iddi. Mae’r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rolau addysgu a’u bod yn hyrwyddo diwylliant diogelu’r ysgol yn barhaus. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer yr athrawon a’r cynorthwywyr er mwyn gwella eu harfer. Maent bellach yn mynd i’r afael â materion yn ymwneud â thanberfformio, yn ôl yr angen. Mae’r uwch dîm rheoli wedi cychwyn ar gylch newydd o brosesau hunanwerthuso’r ysgol. Mewn cyfnod byr, maent wedi cynnal gweithdrefnau a phrosesau monitro cynhwysfawr. Mae’r canfyddiadau’n adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella sydd yn seiliedig ar gasglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth. Mae hyn yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, cynnal arsylwadau ffurfiol a theithiau dysgu, trafod yn anffurfiol a gwrando ar ddysgwyr. Mae’r holl staff yn rhan o’r gweithdrefnau hyn, ac mae’r ffocws yn fwriadus ar wella’r ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gymeradwyol a chefnogol iawn o holl weithgareddau’r ysgol. Maent yn cyfrannu’n briodol at weithgarwch monitro ac mae hyn yn eu helpu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am safonau dysgu’r disgyblion. Maent yn derbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth sy’n amlygu bywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn cydweithio ag arweinwyr a’r

disgyblion yn effeithiol wrth sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er hynny, nid oes digon o ddyfnder yn nealltwriaeth yr aelodau o ofynion eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, maent yn or-ddibynnol ar arweiniad y pennaeth wrth weithredu'n strategol.

Mae gan yr ysgol berthynas glòs ac effeithiol â rhieni a phartneriaid yr ysgol. Mae'r pennaeth yn anfon llythyron cyson i drosglwyddo prif negeseuon pwysig a disgwyliadau uchel yr ysgol iddynt. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r pennaeth wedi cyfathrebu pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae hyn wedi gwella presenoldeb disgyblion yr ysgol mewn cyfnod byr.

Mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau agored ar gyfer rhieni newydd ac mae staff yn cyflwyno gweithdai defnyddiol ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ymwybyddiaeth rhieni o ddisgwyliadau'r ysgol. Mae gan staff berthynas dda â'r rhieni, sy'n eu hannog i fod yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag aelodau'r gymuned i sicrhau bod y cymorth ar gyfer dysgu a lles yn diwallu anghenion pob disgybl. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer cadw pawb yn ddiogel, sy'n wybyddus i holl randdeiliaid yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli'r cyllid yn ofalus ac yn trefnu adnoddau'r ysgol yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i'r ysgol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni ymyrraeth i ddisgyblion sydd angen cymorth pellach â'u dysgu. Yn ogystal, mae gwariant grantiau yn caniatáu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol wrth ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol.

Mae staff wedi nodi ac adnabod arfer dda o fewn yr ysgol, gan sicrhau bod eraill yn elwa ohono. Mae hyn yn cyfrannu'n dda i greu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent hefyd wedi cychwyn ar waith o gydweithio â'r clwstwr ac ysgolion eraill. Er enghraifft, maent wedi rhoi ffocws ar ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru a chydlynu a lledaenu cynllun 'Tafod Trafod' i ddatblygu medrau llafar disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/08/2023